LANAgM1

Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig a gynhyrchwyd yn y sector amaethyddiaeth. Mae cynllunio a rheoli is-gynnyrch organig mentrau ffermio yn rhan annatod o'r broses reoli.

Dylai'r cynllun ystyried gwerth ariannol cynyddol maeth yng ngwrtaith anifeiliaid fferm ac is-gynnyrch a newidiadau organig eraill sydd yn digwydd wrth gyflwyno Parthau Perygl Nitradau (NVZ).

Yn ystod y cynllun gall fod angen gwneud newidiadau ac mae cynlluniau wrth gefn yn rhan hanfodol o'r broses.

Mae'n rhaid i'r holl gynlluniau gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a deddfwriaeth a chodau ymarfer diwydiant eraill.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am reoli fferm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig yn effeithiol
2. ymgynghori â phartïon perthnasol am y cynlluniau a gwneud diwygiadau, fel y bo'n briodol, yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd
3. cadarnhau bod cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig yn unol â deddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a pholisïau cnydio sefydliadol
4. gofyn am gyngor arbenigol lle bo angen
5. adnabod yr adnoddau sy'n ofynnol i weithredu'r cynllun a chadarnhau argaeledd yr adnoddau hynny
6. cyfathrebu'r cynlluniau i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'u gweithredu ynghyd â phartïon perthnasol eraill
7. cadarnhau bod systemau wedi eu sefydlu i ddiogelu pobl ac anifeiliaid rhag peryglon gweithio gydag is-gynnyrch organig (e.e. nwyon)
8. cadarnhau bod dulliau ac arferion gwaith yn cynnal iechyd a diogelwch a'u bod yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a gofynion sefydliadol
9. cadarnhau bod y rheiny sydd yn gysylltiedig â storio a defnyddio is-gynnyrch organig yn defnyddio offer amddiffynnol personol (PPE) priodol
10. gweithredu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig
11. monitro'r gwaith o storio a defnyddio is-gynnyrch organig a chymryd camau priodol os oes problemau'n cael eu nodi
12. gwerthuso'r gwaith o storio a defnyddio is-gynnyrch organig am eu heffeithiolrwydd yn bodloni cynlluniau, deddfwriaeth berthnasol a chodau ymarfer
13. gwerthuso goblygiadau iechyd a diogelwch gweithio gydag is-gynnyrch organig
14. cadarnhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u storio fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer, gofynion sicrwydd ansawdd a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. mathau, cyfansoddiad a meintiau'r is-gynnyrch organig a gynhyrchwyd yn y fenter
2. goblygiadau bod mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ) i'r busnes
3. y dulliau o gynyddu gwerth ariannol y maeth a geir yn yr is-gynnyrch organig sy'n cael ei gynhyrchu
4. gwerth defnyddio is-gynnyrch organig ar y cyd â gwrteithwyr eraill
5. y ffynonellau gwybodaeth a chyngor arbenigol ar storio a defnyddio is-gynnyrch organig
6. sut i ddatblygu a diwygio cynlluniau rheoli ar gyfer defnyddio'r maeth a geir yn effeithiol, yn cynnwys buddion ariannol (e.e. defnydd mewn cynlluniau cnydio)
7. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig
8. sut i bennu'r adnoddau dynol, ariannol, materol a chyfalaf sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r cynlluniau
9. y dulliau o gyfathrebu'r cynlluniau a'r gweithdrefnau i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'u gweithredu ynghyd â phartïon eraill â diddordeb
10. sut i weithredu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig yn effeithiol
11. y ffurflenni a'r trwyddedau yn ymwneud â storio a defnyddio is-gynnyrch organig sydd angen eu cwblhau gan aelodau o staff neu asiantau allanol fel contractwyr
12. y dulliau a'r offer priodol sy'n ofynnol i gymhwyso is-gynnyrch organig ar y tir er mwyn cael y gwerth maethol gorau posibl
13. y problemau a allai ddigwydd wrth storio a defnyddio is-gynnyrch organig a sut dylid ymdrin â'r rhain

14. y dulliau o fonitro effeithiolrwydd y cynlluniau rheoli ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig

15. goblygiadau iechyd a diogelwch ymdrin ag is-gynnych organig

16. pwysigrwydd cadarnhau bod yr offer amddiffynnol personol (PPE) cywir yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin ag is-gynnyrch organig

17. sut a phryd i hysbysu'r awdurdod amgylcheddol perthnasol os bydd problem ddifrifol yn datblygu

18. y gofynion ar gyfer adrodd a chofnodi'r amser y dylid cadw cofnodion

## Geirfa

**Gallai awdurdod amgylcheddol fod yn un o'r canlynol:**

- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban
- Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon
- Adran yr amgylchedd mewn awdurdod lleol

**Parth Perygl Nitradau (NVZ):** Ardal wedi ei dynodi i fod mewn perygl o lygredd nitradau amgylcheddol. Mae'n rhaid i fusnesau ddilyn gofynion cyfreithiol ar gyfer defnyddio gwrtaith nitrogen a gwrtaith organig.

**Gallai is-gynnyrch organig gynnwys:**

- biswail
- gwrtaith buarth fferm (FYM)
- compost
- digestate

LANAgM1

Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer storio a defnyddio is-gynnyrch organig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAgM1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Rheolwr Fferm, Cynghorydd Technegol Amaethyddol |
| **Cyfres/Set** | Rheolaeth Amaethyddol |
| **Geiriau Allweddol** | fferm; gwastraff; ailgylchu; maethynnau; FYM; biswail; compost; |